# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 25 Chwefror 2002

**R - yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Nodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad pellach er mwyn egluro defnydd a diben y Cymhorthdal Recriwtio i Gyflogwyr a grybwyllwyd yn WAQ15408. (WAQ15491)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn egluro pa gymorth sydd ar gael o dan y Cymhorthdal Recriwtio i Gyflogwyr, fel a grybwyllwyd yn WAQ15408. (WAQ15492)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y caiff y Cymhorthdal Recriwtio i Gyflogwyr ei ariannu, fel a grybwyllwyd yn WAQ15408. (WAQ15494)

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** O ba gronfa ariannu y daeth y cymorth o £500,000 ar gyfer Rheilffordd Dreftadaeth Ynys y Barri. (WAQ16051)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid

**Ron Davies (Caerffili);** Pa gostau a ysgwyddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn yr achos rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Phartneriaeth Richard Rogers mewn perthynas â chynllun yr adeilad newydd o dan y broses ddyfarnu ddiweddar. (WAQ16041)

**Ron Davies (Caerffili);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr holl gostau hyd yma mewn perthynas â phrosiect siambr newydd y Cynulliad. (WAQ16042)